

# **BRWYDR IAWNDAL LLWCH Y CHWARELWYR**

Darlith gan

Yr Arglwydd Dafydd Wigley

a gyflwynwyd am y tro cyntaf yn  
Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis

**23ain Ionawr 2020**

Rhan o enwebiad Safle Treftadaeth y Byd  
Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru



**Llechi Cymru  
Wales Slate**

Cadeirydd a chyfeillion,

Dwi'n eithriadol o falch o gael y cyfle i draddodi'r ddarlith hon heno fel rhan o ymgyrch Cyngor Gwynedd i sicrhau dynodiad Treftadaeth y Byd i'r tirwedd llechi yng Ngwynedd.

Dwi'n hynod ddiolchgar i'r Amgueddfa Lechi am estyn gwahoddiad i mi ei thraddodi yma, i Dafydd Roberts am ei groeso, ac i chwi a staff yr Amgueddfa am bob help a chydweithrediad. Diolch hefyd i'n cyfieithydd heno, Bethan o Gyngor Gwynedd, ac i chi fel cynulleidfa am eich diddordeb.

Mae'n dda fod hyn yn cyd-daro â dathliad canmlwyddiant a hanner adeiladu'r Gilfach Ddu. Dwi'n croesawu uchelgais Amgueddfa Cymru i ailddatblygu'r amgueddfa sydd yma, ac i'w throï'n bencadlys Amgueddfa Cymru yn y Gogledd. Gobeithio'n fawr y gwelwn Lywodraeth Cymru yn cefnogi hyn, fel y gwnaethant efo ailddatblygiad hynod lwyddiannus Sain Ffagan.

Cefais y fraint o weithredu fel Cadeirydd Ymgyrch Treftadaeth y Byd dros y pum mlynedd diwethaf, ac mae'n dda cael nodi bod ein cais wedi cael cymeradwyaeth Llywodraeth Prydain y llynedd. Yn wir, bu'r Gweinidog o'r DCMS yn Llundain, Helen Whately, yma bore 'ma i ddatgan hynny'n swyddogol. Gwyddom bellach y bydd Pwyllgor Treftadaeth Byd y Cenhedloedd Unedig yn ei ystyried yn eu cyfarfod ym mis Gorffennaf 2021.

Dwi eisiau diolch i swyddogion Cyngor Gwynedd – Sioned Williams, Roland Evans a Hannah Joyce, a staff yr Adran Economi a Chymuned a'r Adran Gynllunio –sydd wedi buddsoddi oriau lawer yn hybu'r prosiect; i Dafydd Gwyn, ein hymgyngorydd arbenigol ardderchog; ac i'r cynghorwyr am eu cefnogaeth. Mae'n dda gweld yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu'r Economi, y Cynghorydd Gareth Thomas, efo ni heno. A dwi'n falch o nodi hefyd i ni dderbyn sêl bendith Llywodraeth Cymru a chefnogaeth pob Cyngor Cymuned o fewn tiriogaeth y cais.

Lles y cymunedau hyn, a'u trigolion, yw'r prif reswm dros geisio am statws "Safle Treftadaeth y Byd". Gobeithiwn y bydd y dynodiad – a roddwyd eisoes i'r diwydiant Glo ym Mlaenafon, Gwent, ac i'r diwydiant mwyngloddio tun yng Nghernyw – yn dod â budd economaidd i'r bröydd hyn.

Gobeithiwn y bydd yn ennyn ymwybyddiaeth newydd, yng Nghymru a thu hwnt, o gyfraniad y diwydiant llechi – o ran technoleg gweithio'r graig a hefyd o ran marchnata cynnyrch i bedwar ban byd. Hefyd, gobeithiwn y daw'r byd i barchu'r arweiniad cymdeithasol a diwylliannol a ddeilliodd o'r cymunedau hyn; ac y bydd hynny'n ysbrydoliaeth i'n cenedl.

Mae sawl cyfaill yn llawer mwy cymwys na mi i adrodd hanes y diwydiant; am y dychymyg a'r creadigrwydd a esgorodd ar yr offer a'r peirianwaith diwydiannol a thrafnidiol; am gyfraniad yr undebau llafur yn y brwydrau am gyfiawnder diwydiannol a chymdeithasol i'r chwarelwyr – mewn diwydiant caled a thrwm; ac am haelioni rhai (er nad y cyfan) o'r perchenogion wrth greu a chynnal ysbytai ar y safleoedd gwaith oedd yn arloesi yn y fath ddarpariaeth ym Mhrydain; ac, yn bendifaddau, am y cyfoeth o ran rhyddiaith, barddoniaeth a cherddoriaeth sy'n gysylltiedig â'r diwydiant llechi, y chwarelwyr a'u cymunedau.

Dwi am ganolbwyntio ar un agwedd yn unig o'r hanes, un y cefais innau – fel Aelod Seneddol Caernarfon – gyfle i chwarae rhan fechan ynddi, ochr yn ochr â llawer o wleidyddion ar draws ffiniau plaid, a llawer o fewn yr undebau llafur. Ymgyrch oedd hon i gael cyfiawnder i'r chwarelwyr a'u teuluoedd a ddiodefodd oherwydd eu gwaith: y frwydr i ennill iawndal teg i'r rhai a gollodd eu bywyd neu eu hiechyd wrth weithio yn y chwareli, ac a fu'n dioddef o gyflyrau'r ysgyfaint sy'n deillio o anadlu llwch y garreg. Mae pawb fu'n ymwneud â'r diwydiant llychlyd hwn, fel y diwydiant glo, yn gwybod am natur y dioddefaint; am gyfiawnder yr achos; ac am ei arwyddocâd aruthrol i'r teuluoedd a'r cymunedau yng Ngwynedd. A gwn fod llawer ohonoch yma heno wedi colli perthnasau oherwydd silicosis.

Ga' i ddechrau drwy gyfeirio at gwestiwn a ofynnwyd yn y seiat fu'n trafod y cais am statws Treftadaeth y Byd yn 'Steddfod Llanrwst, fis Awst diwethaf. Ar y diwedd, gofynnwyd i'r panelwyr sut oedd y diwydiant llechi wedi dylanwadu ar eu gyrfaoedd.

'Doedd dim disgwyl i mi ateb y cwestiwn, ond pe tawn i wedi, byddwn wedi sôn am fy atgofion yma yn Arfon adeg chwalfa'r diwydiant ar ddiwedd y pumdegau a dechrau'r chwedegau, a sut y dylanwadodd hyn arnaf i sefyll etholiad a dod yn Aelod Seneddol dros Arfon.

Oherwydd un o'm hatgofion gwleidyddol cyntaf oedd yr orymdaith, 'nôl yn y pumdegau, pan oedd chwarelwyr di-waith Dyffryn Nantlle yn cerdded o Benygroes i Gaernarfon i brotestio am y diffyg gwaith, gan fynd heibio i'm cartref yn y Bontnewydd.

Roedd hyn yn ystod cyfnod pan oedd y Prif Weinidog Ceidwadol, Harold Macmillan yn brolio "*You've never had it so good*". Roedd hyn yn peri i fachgen bymtheg oed ofyn iddo'i hun "*Pam mae pethau mor wael yma yn Arfon os ydynt mor wych yn Lloegr?*" Protest y chwarelwyr, ynghyd â saga boddi Tryweryn, ddeffrodd ymwybyddiaeth wleidyddol y crwt yma!

Pan ges i fy newis fel ymgeisydd seneddol Arfon ym 1973, rhoddwyd ar ddeall i mi mewn modd digamsyniol gan fy nghynrychiolydd etholiad, y diweddar Wmffra Roberts Penygroes, mai un o'm prif ddyletswyddau oedd ymladd am gyfiawnder i'r chwarelwyr fu'n dioddef o *pneumoconiosis* a silicosis; ac i'r cyn-chwarelwyr, a'u teuluoedd.

Roedd hyn am reswm arbennig iawn: roedd tad Wmffra yn chwarelwr ac wedi marw o effaith y llwch. Roedd Wmffra wedi gweld â'i lygaid ei hun, ei dad yn cwffio am bob anadl. 'Roeddwn innau, bryd hynny, yn gynghorydd ym Merthyr Tydfil, ac yn gwybod am ddiodefaint erchyll y glowyr oherwydd *pneumoconiosis*; a'r anghyfiawnder dybryd y bu iddynt hwy a'u cymunedau ei ddiodef.

Cefais fy ethol ym mis Chwefror 1974, i Senedd lle 'roedd Llywodraeth Lafur Harold Wilson wedi cipio grym oddi wrth Ted Heath a'r Torïaid. Cefndir yr etholiad brys oedd anghydfod y glowyr; yn wir, eu triniaeth anghyfiawn oedd un o brif themâu'r ymgyrch. Ac un o'r elfennau hynny yn yr ardaloedd glofaol oedd y cwestiwn o dalu iawndal i'r glowyr oedd yn dioddef o afiechydon yr ysgyfaint. Addawodd y Blaid Lafur y byddent yn dod â chynllun iawndal i'r glowyr; ond doedd dim sôn am unrhyw gynllun o'r fath i'r chwarelwyr.

Yn fuan wedi i mi gymryd y sedd, daeth Wmffra i lawr i'r senedd, a thra 'roedd yno, digwydd iddo gyfarfod yn y "*Stranger's Bar*" â Willie Ross, Ysgrifennydd Gwladol yr Alban yn y Lywodraeth Lafur. Ar ôl fawr ddim sgwrs, cydiodd Wmffra ar ei gyfle, ei lais a'i lygaid yn tanio gyda'i gilydd. Roedd Ross yn sefyll dros chwe throedfedd, yn gyn-filwr – gyda'r *Highland Light Infantry* – ac yn gyn-swyddog o'r fyddin o'i gorun i'w draed. Doedd Wmffra fawr dros bum troedfedd ac yn wantan ei iechyd: yn wir, bu farw o fewn deunaw mis, yn 42 oed.

Ond fyddai neb fu'n dyst i'r digwyddiad yn anghofio sut yr oedd yn chwifio dwrn dan drwyn Willie Ross, yn procio bys yn ei fol, gan ddatgan "*Look here Willie...*" cyn cyhoeddi mai sgandal o'r mwyaf fyddai i'r Lywodraeth Lafur anwybyddu achos teilwng y chwarelwr. Os oedd gennyf unrhyw amheuaeth cyn y digwyddiad hwn, doedd gennyf ddim gronyn o ansicrwydd wedyn.

Roedd ennill achos y chwarelwyr ar frig fy agenda fel Aelod Seneddol Arfon; ac yn sgil marwolaeth gynamserol Wmffra ym 1976, roedd dyletswydd foesol arnaf i gael y maen i'r wal.

Ond gadewch i mi osod y cefndir. Roedd dioddef o effaith llwch yn brofiad yr un mor hen â'r diwydiant naddu cerrig. Ymddengys fod dau "*Mummy*" o'r Aifft, sydd yn Amgueddfa Manceinion, wedi cael eu profi'n feddygol eu bod yn dioddef o "*severe pneumoconiosis*". Ond ni ddaeth y term hwnnw yn un cyffredin ar lafar gwlad tan lawer iawn yn ddiweddarach.

Yn ôl Dr Edward Davies yn ei gyfrol, *The North Wales Quarry Hospitals*,

*"The term pneumoconiosis was first introduced by Friedrich Zenker, in 1866, to describe a group of lung diseases caused by deposits of inhaled particles during mining and quarrying operations."*

Roedd Dr Gustav Bauer wedi cyhoeddi llyfr ym 1556, ac wedi gwahaniaethu rhwng yr afiechyd a ddioddefai mwynwyr mewn pyllau tanddaearol llaith a'r rhai oedd yn anadlu llwch sych. Honnodd fod llwch sych yn beryclach, ac yn arwain at farw drwy "*miner's phthisis*", cyfuniad o'r diciâu a *pneumoconiosis*.

Ac er bod y diwydiant llechi yn hen iawn yng Nghymru – yn mynd yn ôl i oes y Rhufeiniaid, ac roedd toi o lechi ar gestyll Edward 1af yng Nghaernarfon a Chonwy – ni thyfodd y diwydiant lawer tan yr ail ganrif ar bymtheg. Hyd yn oed bryd hynny, roedd y gwaith o fwyngloddio am lechi yn broses o dorri'r creigiau a'u hollti yn yr awyr agored. Cymharol fychan oedd y peryglon o anadlu llwch felly.

Ond wrth i'r diwydiant dyfu, ac wrth i'r gwaith hollti a naddu ddigwydd fwyfwy mewn cytiau dan do, yn arbennig wedi dyfodiad peiriannau trydan ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, roedd y perygl o anadlu llwch yn gwaethygu'n enbyd. Bryd hynny, doedd dim offer i sugno'r llwch na'i ddampnio efo dŵr.

A chofiwch hyn - ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, roedd 'na feddygon yn dweud, gredech chi, fod anadlu llwch yn llesol!

Lled-awgrymwyd hyn gan y meddyg mwyaf adnabyddus i weithio yn Ysbyty Chwarel Dinorwig, sef Dr R. H. Mills Roberts, a fu'n llawfeddyg yno o 1890 tan ddechrau'r 1920au. Roedd yn enwog fel gôl-geidwad tîm pêl-droed Cymru a chwaraeodd yn y Gôl i Preston North End yn y Cup Final ym 1888.

Ond er gwaetha'r ffaith mai ef, mae'n debyg, oedd y meddyg mwyaf blaenllaw a weithiodd yn unrhyw un o ysbytai'r Chwareli – yn yr oes aur honno o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg tan ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf – roedd barn Dr Mills-Roberts ynglŷn â llwch ar yr ysgyfaint yn ddjarhebol o amheus.

Os caf ddyfynnu eto o gyfrol Dr Edward Davies,

*“During some controversy concerning the deleterious effects of slate-dust, Mills Roberts maintained that he was healthier than he had ever been...Many of his medical friends attached to large hospitals in England, used to convalesce at Hafoty (Llanberis) and were envious of the healthy environment. That was the argument that (Dr Mills Roberts) used to deny that there was any ill effect from the inhalation of dust.”*

A wir i chi, fe wnaeth ddatganiad i'r perwyl hwn mewn tystiolaeth ffurfiol i Bwyllgor Ymchwiliol i'r Chwareli ym 1894. Pan gyll y call, fe gyll ymhell!

Anhygoel ynte, tan i ni gofio fod rhai o'r meddygon yn cael eu cyflogi gan berchenogion y chwarel; a go brin y byddent yn dewis brathu'r llaw oedd yn eu cynnal. Fe ategir y dybiaeth hon yn sylwadau'r Athro Merfyn Jones yn ei gyfrol safonol, *“The North Wales Quarrymen”*, pan gyfeirir at lythyr a anfonodd Mills Roberts at W. W. Vivian, rheolwr chwarel Dinorwig, yn awgrymu y dylai “eistedd” ar ffigyrau a ddangosai fod, ymhlith chwarelwyr, lefel uwch o anhwylder anadlu na'r cyfartaledd yng ngweddill y boblogaeth.

Efallai nad oedd barn Mills Roberts yn annisgwyl yng nghyd-destun ei gyfnod. Llauer anoddach yw derbyn sylwadau Dr Bradley Hughes, Meddyg Chwarel y Penrhyn, pan ddywedodd ym 1922:

*“We have no case of silicosis in the Quarry, of which I am aware; and I became convinced, after four years’ experience here, that slate dust is not merely harmless – but beneficial”.*

O ganlyniad i’r fath gam-arweiniad, roedd y gweithwyr bryd hynny’n lled ddi-hid o’u diogelwch o safbwynt anadlu’r llwch. A hyd yn oed yn ddiweddarach, pan oedd rhyw fath o fwgwd ar gael, roedd llauer o’r gweithwyr yn eu cael yn annifyr i’w gwisgo; a doedd dim trefn *“health and safety”* yn bodoli. Ac er fod pobl yn edliw heddiw am y *nanny-state*, mae gwarchod iechyd a diogelwch y gweithiwr bellach yn rhan annatod o gyfrifoldeb cyflogi, a diolch i’r drefn am hynny.

Ac eto, rhaid cofio’r ffaith fod ysbytai ar gael yn y tair chwarel fwyaf – Dinorwig, y Penrhyn a Ffestiniog. Yn ôl Dr Edward Davies:

*“The North Wales quarries were unique in that they instituted the first occupational health service in Britain....the Slate Quarry scheme was also unique in including access to its own hospitals...established between 1820 and 1860.”*

Pan ystyriwch hyn oll, ac os ewch chi’n ôl i’r ganrif cyn y ddiwethaf, pan mai’r byddigions oedd yn berchen ar y chwarel ac yn cyflogi’r meddygon, doedd gan y gweithwyr druan ddim siawns o allu herio’r drefn ynglŷn â’r niwed a wnaed i’w hiechyd gan llwch y garreg. Dim ond o weithio gyda’i gilydd drwy’r undebau y gellid newid y drefn. *Mewn Undeb Mae Nerth*. Ond, rhaid cofio mai ym 1871 y daeth Undebau Llafur yn gyfreithlon ym Mhrydain; ac ym 1874 mewn cyfarfod yng Nghaernarfon fe ffurfiwyd Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru. Am flynyddoedd bu’r Undebau’n brwydro – Undebau’r Glowyr a’r Chwarelwyr fel ei gilydd – i osod cyfrifoldeb ar gyflogwyr i ddarparu amgylchiadau gweithio diogel i’w gweithwyr.

Y gwir oedd bod Undeb y Chwarelwyr, a sefydlwyd i wasanaethu chwarelwyr drwy Ogledd Cymru, yn rhy fach i herio’r meistri yn effeithiol, er gwaethaf eu safiad adeg Streic Fawr y Penrhyn ac ar sawl achlysur arall.

Dyna pam, ym 1923, y bu i Undeb y Chwarelwyr ddod yn gysylltiedig – “*affiliated*” oedd y term – â’r Undeb Gweithwyr Trafnidiaeth a Chyffredinol, y T&GWU, a sefydlwyd ym 1922. Bu i’r berthynas hyd braich honno barhau tan 1960, pan gawsant eu llyncu’n llwyr.

Wrth geisio cael iawndal i’r gweithwyr oedd wedi colli eu hiechyd fel chwarelwyr llechi, roedd angen tri pheth.

Yn gyntaf, roedd angen dangos fod llwch yn niweidiol i’r iechedd.

Yn ail, roedd angen profi fod gwaith gyda chyflogwr penodol wedi achosi’r cyflwr ac felly bod cyfrifoldeb ar y cyflogwr i ddigolledu’r claf.

Yn drydydd, roedd angen darpariaeth wladwriaethol i ofalu am weithwyr claf nad oeddent yn gallu ennill iawndal drwy’r llysoedd.

Doedd dim modd profi, yn ddigamsyniol, fod llwch yn niweidio’r iechedd tan y gwelwyd datblygiadau mewn meddygaeth fyddai’n adnabod mathau o afiechedd yr ysgyfaint, dealltwriaeth o ba amgylchiadau gwaith fyddai’n eu hachosi, a sut i’w trin.

Cam sylweddol oedd creu’r peiriant pelydr-X cyntaf ym 1895, ac ym 1905 defnyddiwyd y dechnoleg hon am y tro cyntaf ar gyfer dibenion diagnostig. Rhwng y 1920au a’r 1950au, datblygwyd y gallu i sgrinio’r ysgyfaint ar gyfer *pneumoconiosis*. Ond er fod y dechneg ar gael, dim ond gyda dyfodiad y gwasanaeth iechedd gwladol yr oedd modd i weithiwr gael y fath dystiolaeth heb dalu. Felly, roedd sefydlu’r NHS ym 1948 yn ganolog i’r frwydr ar gyfer iawndal. Daeth “*mass screening*” yn gyffredin yn y pumdegau.

Roedd yr ail hanfod – gallu dangos fod gwaith gyda chyflogwr penodol wedi achosi’r cyflwr – yn gymhleth dros ben o ran cyfraith cyflogi. Y prif faen tramgwydd oedd y *Limitation Acts*. Roedd y syniad o “*limitation*” yn bodoli mewn Cyfraith Gwlad – “*Common Law*” – dros y canrifoedd, sef yr egwyddor fod yna gyfnod penodedig ar ôl digwyddiad niweidiol pan oedd gan y dioddefwr hawl i fynd ag achos i’r llys yn erbyn y sawl a achosodd y niwed. Wedi diwedd y cyfnod hwnnw, roedd yr achos “allan o amser” – yn “*time-barred*” – a dim hawl wedi hynny i ddechrau achos am iawndal.



Byddwch yn deall ar unwaith sut oedd hyn yn berthnasol i'r chwarelwyr. Gan mai cyflwr sy'n datblygu'n raddol ydi *Pneumoconiosis*, roedd yn anodd dweud yn union pa bryd oedd yr aflwydd wedi dechrau amharu ar iechyd y claf.

Weithiau ni fyddai tystiolaeth o'r niwed yn dod yn amlwg am flynyddoedd. Felly, ni fyddai'r gweithiwr yn gallu hawlio iawndal tan y byddai'n rhy hwyr, a'r achos "allan o amser" – yn "*time-barred*".

Roedd *Limitations Act* 1939 yn ceisio rhesymoli'r sefyllfa; ond nid oedd o help i'r chwarelwyr. Diffiniwyd o'r newydd y cyfnod pan oedd hawl i ddilyn achos sifil drwy'r llysoedd, mewn achosion niweidio iechyd, gan osod cyfnod o chwe mlynedd i'r gweithiwr ddod ag achos yn erbyn cyflogwr – cyfnod digon rhesymol. Ond roedd y cyfnod i ddechrau o'r dyddiad y digwyddodd y niwed, NID o'r dyddiad y daeth y gweithiwr yn ymwybodol ohono.

Mae hyn yn sylfaenol i ddeall yr annhegwch a ddioddefodd y chwarelwyr. Oherwydd roedd cyfnod – efallai blynyddoedd – cyn bod effaith anadlu llwch llechi i'w weld ar iechyd y gweithiwr; a chofiwch, roedd hyn cyn i sgrinio pelydr-X ddod ar gael yn eang. Cydnabuwyd gwendid Deddf 1939, ond ni chymerwyd camau i newid y Ddeddf tan 1963, pan basiwyd *Limitations Act* newydd.

Y tro hwn, diffiniwyd y cyfnod pryd oedd hawl i ddod ag achos cyfreithiol i dair blynedd o ddyddiad y digwyddiad NEU dair blynedd *o'r dyddiad y daeth y dioddefwr yn ymwybodol* o niwed i'w iechyd. Roedd y newid hwn yn chwyldroi'r sefyllfa.

Arweiniodd hyn at achos yn yr Uchel Lys yn Llundain ym 1968; achos dyn o'r enw Pickles na fu'n gallu gweithio fel glöwr ers blynyddoedd lawer oherwydd effaith llwch – ond nad oedd wedi derbyn unrhyw iawndal diwydiannol. Llwyddodd yr NUM i ennill iawndal iddo yn erbyn y Bwrdd Glo, drwy ddefnyddio'i hawliau dan y *Limitations Act* newydd.

Roedd hwn yn ddatblygiad allweddol. Ystyriwch sefyllfa cyn-chwarelwr, oedd wedi disgwyl blynyddoedd cyn deall llawn effaith niweidiol y llwch. Tan achos Pickles, byddai wedi colli'r hawl cyfreithiol am iawndal. Gyda newid yn y Ddeddf, ac achos Pickles yn gysail, roedd siawns y gallai ddod ag achos llwyddiannus yn erbyn ei gyn-gyflogwyr yn y chwarel.

I weithwyr Chwarel y Penrhyn – oedd yn dal mewn busnes – roedd cyfle i'r Undeb weithredu, a threfnodd y *Transport and General* i gwmni cyfreithwyr Elwyn Jones, Bangor, ddod ag achos prawf yn erbyn Chwarel y Penrhyn. Enillwyd setliad allan o'r Llys, efo cwmni yswiriant y Penrhyn yn talu iawndal i'r gweithwyr hynny oedd yn y grŵp a ddiffiniwyd gan yr achos.

Roedd hyn yn ateb gofynion un grŵp o weithwyr; a da hynny. Ond roedd pum grŵp arall, oedd yn cynrychioli mwyafrif helaeth y dioddefwyr, yn disgyn trwy'r rhwyd, sef:

- (1) y rhai oedd ddim yn gweithio i'r Penrhyn, ond i chwareli eraill oedd yn rhygnu mlaen, yn aml heb adnoddau nac yswiriant digonol i dalu unrhyw iawndal o werth
- (2) y rhai lle roedd chwareli eu cyn-gyflogwyr wedi cau, fel nad oedd cwmni ar ôl i ddod ag achos yn eu herbyn – megis y cannoedd lawer o gyn-weithwyr Dinorwig – chwarel a ddaeth i ben ym 1969
- (3) y rhai fu'n gweithio i fwy nag un cwmni ac felly'n methu priodoli'r safle gwaith lle dechreuodd y *pneumoconiosis* â'r cwmni oedd yn gyfrifol
- (4) y rhai oedd â chyflyrau eraill cysylltiedig â'u gwaith heb gael eu diffinio fel *pneumoconiosis*, gan gynnwys *emphysema* a *chronic bronchitis*, oedd yn rhemp ymhlith hen chwarelwyr
- (5) ac yn bumed, lle roedd y cyflogwr wedi gosod offer atal llwch, gan ei wneud yn anodd profi esgeulustod gan godi cwestiwn o'r hyn a elwid yn "*No-fault compensation*".

I ddelio â hyn oll, roedd angen fframwaith deddf gwlad fyddai'n sefydlu hawliau digamsyniol; a bod "*scales*" o iawndal yn cyfateb i lefel yr anabledd a'r rhagolygon o sut y byddai'n gwaethygu dros oes y dioddefwr.

Ia, maes hynod astrus; ond roedd disgwyl digon rhesymol i Lywodraeth Lafur ddelio â'r broblem. Ac mae'n hawdd deall y byddai'r Blaid Lafur yn rhoddi blaenoriaeth i'r gweithwyr hynny oedd â chefnogaeth undebau nerthol.

Roedd 'na fantais i'r chwarelwyr felly, o gael nerth Undeb fel y T&G y tu cefn iddynt; ond roedd anfantais hefyd: go brin y byddai achos unigryw y chwarelwyr ar frig rhestr blaenoriaethau'r Undeb yn genedlaethol.

Roedd y glowyr mewn sefyllfa wahanol. Roedd y diwydiant wedi ei wladoli ac roedd mwyafrif llethol y glowyr yn gweithio i'r un cyflogwr, sef y Bwrdd Glo. Hyd yn oed os oeddent wedi symud o bwll i bwll, roedd y cyfrifoldeb gan amlaf, yn aros yr un lle.

Yn ail, roedd dros *chwe chan mil* o lowyr yn gyflogedig gan y Bwrdd Glo ym 1960; a'r mwyafrif helaeth yn aelodau o Undeb y Glowyr, yr NUM.

Ymladd am hawliau glowyr oedd sail bodolaeth yr NUM. Y peth olaf y byddai'r Bwrdd Glo am ei wynebu fyddai cwffio miloedd o achosion drwy'r llysoedd.

Yn drydydd, roedd natur *pneumoconiosis* y glowyr, yn wahanol i silicosis y chwarelwr. Efo'r Glowyr, roedd yn datblygu'n weddol sydyn, a'r cyflogwyr adeg y diagnosis yn wybyddus – nid oedd hyn mor dryloyw efo'r chwarelwr.

Yn sgil achos Pickles, wynebai'r Bwrdd Glo filoedd o achosion iawndal llwch. O'u gwrthwynebu yn y llysoedd, byddent yn wynebu costau cyfreithiol sylweddol, ac ar ben hynny, o'u colli, taliad iawndal i'r gweithwyr. Byddai hynny'n ddigon i danseilio cyllid yr NCB, a'u gallu i oroesi. Go brin y byddai Llywodraeth Lafur yn fodlon gweld diwydiant gwladol yn suddo.

Felly daeth Llywodraeth Wilson i gytundeb efo'r NCB a'r NUM – y *Tri-partite agreement* – a wireddwyd drwy Ddeddf Glo 1975. Roedd yn darparu cronfa iawndal o £100m o arian gyhoeddus i dalu iawndal *pneumoconiosis* i'r glowyr. Roedd hyn yn rywbeth ardderchog i'w wneud; ac roeddem ni, Aelodau Seneddol y Blaid, yn ei gefnogi i'r carn.

OND...ac ond go fawr...beth am y chwarelwr?

Roedd eu dioddefaint llawn cymaint â'r glowyr.

Ac roedd methiant cyflogwyr y chwareli i dalu iawndal yn waeth.

Os oedd "*Liability*" yn disgyn ar y wlad i dalu iawndal y glöwr, oni ddylai fod yr un mor berthnasol i'r Chwarelwr?

Felly yn ein blwyddyn seneddol lawn gyntaf, 1974-75, aeth Dafydd Elis Thomas a minnau ati i ddwysáu'r frwydr dros y Chwarelwr. Dafydd El oedd yn arwain ar y pwnc: yn ei etholaeth, roedd ganddo ef ddiwydiant sylweddol yn parhau, yn 'Stiniog, Corris, Aberllefenni ac Abergynolwyn. Ond roeddem ill dau yn chwilio am bob cyfle i godi'r pwnc.

Cawsom gefnogaeth tu ôl i'r llenni gan Cledwyn Hughes, AS Llafur Ynys Môn. Roedd un o'i gyn-dadau'n hanu o Lanrug ac yn chwarelwr. Roedd Cledwyn, bryd hynny, yn Gadeirydd y Blaid Lafur Seneddol. Roedd dau gyn-Aelod Seneddol o Wynedd yn ymddiddori yn y frwydr yn Nhŷ'r Arglwyddi, sef Goronwy Roberts a T. W. Jones; ac felly hefyd AS Llafur Cannock, Gwilym Edffrwd Roberts, a fagwyd yn Neiniolen. Bu yntau'n codi cwestiynau ynglŷn ag iawndal *pneumoconiosis* i'r chwarelwyr yn ogystal â'r glowyr oedd yn etholwyr iddo; ac felly hefyd, Tom Ellis, cyn löwr ac AS Llafur Wrecsam.

Ac yma yng Ngwynedd bu ymgyrchu caled gan Ted Oliver, cyn-ysgrifennydd Undeb y Chwarelwyr; gan Idwal Edwards, Trefnydd Gogledd-Orllewin Cymru Undeb y T&G; a Tom Jones, ei olynydd. Rhoddwyd cefnogaeth ymarferol gan TUC Cymru a chefnogaeth gyfreithiol gan Syr Elwyn Jones, Bangor.

Ac yn sgil cyfarfod yn Ffestiniog (tua 1976) a fynychwyd gan Dafydd Elis Thomas, ffurfiwyd Pwyllgor Ymgyrch dros iawndal; ac yn ddiweddarach, pwyllgorau ymgyrch lleol drwy bentrefi chwareli Gwynedd efo Mrs Marian Jones, Ffestiniog, yn gydlynnydd. Un arall a chwaraeodd ran yma yn Arfon oedd Mrs Betty Williams, Talysarn a ddaeth yn Aelod Seneddol Conwy ym 1997. Cefais innau help hefyd gan Dr Dan Hughes, Llanrug.

Dwi'n cyfeirio at ymdrechion y cyfeillion hyn er mwyn pwysleisio nad ymgyrch un blaid, nac un gymuned, oedd yr ymgyrch dros iawndal llwch. Roedd Dafydd Elis Thomas yn hynod weithgar yn 'Stiniog; ac roedd o a minnau yn y lle iawn, ar yr amser allweddol, i arwain y frwydr Seneddol – a chael y maen i'r wal ym 1979.

Bu'r frwydr yn y Senedd rhwng 1974 a 1979, pan basiwyd y Ddeddf *Pneumoconiosis*, yn un hir a rhwystredig. Cefais fy ethol ym mis Chwefror 1974 i senedd grog oedd am redeg am gwta chwe mis. Prin amser i gwblhau prentisiaeth a dysgu sut i ymgyrchu yno.

Ar ôl etholiad arall ym mis Hydref 1974, pan gafodd Dafydd El a minnau ein hailethol, daeth yn haws i ni ddechrau o ddifri ar y gwaith strategol. Aethom ati i bwysu am ymrwymiad gan y Lywodraeth Lafur ynglŷn â iawndal llwch.

Un o’r cwestiynau cyntaf oedd i Ysgrifennydd newydd Cymru, John Morris pan holais ef am fwriad y Llywodraeth: yr ateb digon swta a gefais ganddo oedd:

*“The issue is still under consideration with my colleagues. The matter is complex and consideration of all the relevant factors, will inevitably take time.”*  
(5 Tachwedd, 1974)

Siomedig, a dweud y lleiaf, yn arbennig pan oeddent wrthi ar yr un pryd yn llunio cynllun iawndal y glowyr. Cefais gyfle i bwysu arno eto ym mis Ionawr 1975. Ei ateb y tro hwnnw oedd:

*“Further considerations will depend on the findings of the Royal Commission on Civil Liability and Compensation for Personal Injury, which is currently looking at the question of compensation for physical disability caused by accidents or generally arising out of employment”.*

Roedd y cyfryw Gomisiwn wedi’i sefydlu gan Lywodraeth Geidwadol Ted Heath ym 1973, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Pearson. Fe fanteisiodd y Prif Weinidog, Harold Wilson ar hyn a throsglwyddodd iddynt y cwestiwn ynglŷn ag iawndal i’r chwarelwyr, er bod y glowyr am gael iawndal heb ddisgwyl am Gomisiwn Pearson.

Mae’n hen, hen dric gan lywodraethau o bob lliw pan mae ganddynt broblem anodd ei datrys, i’w throsglwyddo i Gomisiwn Brenhinol, gan adael iddynt bendroni dros y broblem am flynyddoedd lawer; yn y gobaith, erbyn hynny, y byddai’r broblem wedi datrys ei hun, neu wedi diflannu! Fe wnaed hynny gan Harold Wilson efo datganoli, gan adael i Gomisiwn Kilbrandon bori uwch ei ben am bum mlynedd.

Ond os Pearson, yna Pearson amdani. Felly dyma fi’n mynd ati ar ran y Blaid i lunio tystiolaeth i’w chyflwyno i Gomisiwn Pearson.

Cyflwynwyd y ddogfen i’r Comisiwn ym 1975; ac wedyn bu’n rhaid i ni ddisgwyl...a disgwyl...a disgwyl! Roedd *“Disgwyl am Pearson”* wedi mynd yn destun gwawd; roedd yn debyg i’r ddrama *“Waiting for Godot”* gan Samuel Beckett.

Hynny yw, disgwyl am rywbeth nad ydych yn sicr beth yn union ydi o; yn ansicr a ydyw am ddod o gwbl; ac os y daw, yn llawnder amser, beth yn union fydd ei natur. Roedd disgwyl am Adroddiad Pearson yn disgyn i’r math yna o brofiad.

Ac felly disgwyl a fu. Roedd yn angenrheidiol i ni gadw pwysau ar y Llywodraeth, a thrwy hynny, ar Pearson, felly dyma fwy o gwestiynau seneddol. Erbyn haf 1976 roedd Harold Wilson wedi ymddeol a Jim Callaghan – AS o Gaerdydd – wedi dod yn ei le.

Manteisiais ar y cyfle i ofyn iddo ar lawr y Tŷ – y cwestiwn llafar cyntaf i mi ei ofyn iddo fel Prif Weinidog o fewn tair wythnos iddo ddod i'r swydd – am ei fwriad i gael iawndal llwch i'r chwarelwyr. Ei ateb oedd:

*“I have great understanding of the problem. Silicosis is a grave disease. A great deal of research has been done on it in my former constituency of Penarth. In logic, there is very little reason why remedy should be limited to the coalminer, as such, but I think we should await the report of the Pearson Committee and see whether it brings forward any proposal on the matter...”*

Teimlais ei fod ef yn llawer cynhesach ei agwedd na fu Harold Wilson; roedd yn deall y broblem, ac roeddwn yn ei adnabod yn bersonol – fel cyd-aelod Cymreig – yn weddol dda. Ac eto, disgwyl am Pearson oedd yr ateb.

Roedd hynna ym mis Gorffennaf 1976, ac roeddem yn dal i ddisgwyl. Ni chyhoeddwyd Adroddiad Pearson tan fis Mawrth 1978, dros bum mlynedd ar ôl iddynt gael eu sefydlu. Roedd Gwaith y Comisiwn wedi cymryd mwy o amser na'r Ail Ryfel Byd. Ond yn bwysicach na hynny, roedd eu dyfarniad ar fater iawndal llwch yn gwbl siomedig. Yn eu hadroddiad – ac mae gennyf gopi yma efo fi heno - dywedasant fel hyn:

*“We have received a considerable volume of evidence from, amongst others, Gwynedd County Council, Mr Dafydd Wigley MP and Plaid Cymru, about compensation for workers in the slate and other quarrying industries, suffering from such lung diseases as pneumoconiosis. The subject has been raised in Parliamentary Debates.*

*These quarrymen, who are eligible for the same benefits under the Industrial Injuries scheme as are, for example, coal miners, experience difficulty in obtaining Tort compensation, because of the number of employers who have gone out of business.*

*It has been suggested that a special scheme, similar to the National Coal Board Compensation Scheme...should be set up to provide additional compensation.*

*Whilst we sympathise with these quarrymen, they are not unique, even among those who are disabled at work, in being denied tort compensation if there is no defendant. The essential difference between the circumstances of the coalminer and quarrymen, is that in the former case compensation can be provided by a single existing, employer (the National Coal Board) whereas in the latter case (sef y chwarelwyr) it cannot. Any scheme which provided additional compensation for slate quarrymen would inevitably have to be financed by the Exchequer.*

*There is clearly a distinction between a scheme financed by the Exchequer & one set up by an individual employer, albeit a nationalised industry. Any state scheme would, in our view, have to compensate all employees who had failed through no fault of their own, to obtain tort compensation. We are forced to the conclusion that it would not be possible to justify providing what would in effect be enhanced state benefits for particular groups of workers.*

*We therefore feel unable to recommend that a special compensation scheme be set up for workers in the slate and other quarrying industries.”*

Roedd hyn yn ergyd ddifrifol i bawb fu'n ymgyrchu dros y chwarelwyr a'u teuluoedd. Aeth y tri ohonom i ben crats – gan gynnwys Gwynfor Evans oedd ag etholwyr fu'n gweithio mewn chwareli eraill, mewn gweithfeydd calch a haearn a hefyd gweision fferm yn dioddef o afiechydon yr ysgyfaint.

Gosodwyd fflyd o gwestiynau seneddol ysgrifenedig, anfonwyd llythyrau at bob gweinidog a allai ddylanwadu ar yr achos ac ysgrifennwyd erthyglau niferus i'r cyfryngau. Trefnwyd cyfarfodydd protest yn y pentrefi chwarelyddol gan Bwyllgor protest Marian Jones ac fe drefnodd TUC Cymru wrthdystiad protest yn Llanberis ym mis Gorffennaf 1978. Daeth y Gweinidog Cyflogaeth, Harold Walker AS, yno ynghyd ag Alec Jones AS, Gweinidog yn y Swyddfa Gymreig.

Cynhaliwyd gorymdaith drwy bentref Llanberis, a bydd rhai ohonoch yn ei chofio; gorymdaith fer, rhyw dri chan llath yn unig, oherwydd na allai'r cyn-chwarelwyr a'u hysgyfaint yn rhacs oherwydd llwch, gerdded dim pellach. Ni allai llawer ychwaith ddringo'r allt fer o'r pentref i Westy'r Fictoria, lle cynhaliwyd y cyfarfod.

Does dim dwywaith i hyn adael argraff ddofn ar Harold Walker, oedd wedi colli ei dad drwy *Pneumoconiosis*. Addawodd y byddai'r Llywodraeth yn cyhoeddi mesur iawndal "*within weeks, not months.*"

Fe ddywedodd hyn, fe dybiaf, oherwydd ei fod yn gwybod am fwriad Jim Callaghan ar y pryd i alw etholiad ym mis Medi 1978, cyn y byddai unrhyw Fesur yn gweld golau dydd. Roedd y Rhyddfrydwyr wedi cefnu ar eu cytundeb i gydweithio â Llafur ac roedd y Llywodraeth mewn lleiafrif yn y Senedd.

Dyna sut oedd pethau'n sefyll pan aethom i 'Steddfod Caerdydd y mis canlynol. Cafodd y tri ohonom, Gwynfor, Dafydd El a minnau, wahoddiad gan Caerwyn Roderick, AS Llafur Brycheiniog a Maesyfed, i fynd i'w gartref yn Rhiwbeina ar 8fed Awst 1978, i gyfarfod efo Michael Foot – Arweinydd Tŷ'r Cyffredin, y cyn-Weinidog Cyflogaeth ac AS Glyn Ebwy. Roedd eisiau trafod rhai "materion pwysig" efo ni. Cawsom awr yn ei gwmni; buom yn trafod y refferendwm Datganoli – roedd Gwynfor yn awyddus i sicrhau y byddai'n digwydd ar ddydd Gŵyl Dewi i gael teimlad "gwladgarol" drwy'r wlad; a phwysodd ar Foot i'r Llywodraeth arwain ymgyrch dros bleidlais "Ia".

Dywedodd Foot nad oedd yn sicr a allai Callaghan barhau fel Prif Weinidog heibio'r Hydref gan nad oedd ganddo fwyafrif. Gofynnodd, yn ysgafn a gogleisiol, a allai unrhyw amgylchiadau godi lle y gallem ninnau helpu Llafur i barhau mewn grym. Ymddengys y byddai'n tair pleidlais ni yn gallu gwneud gwahaniaeth. Awgrymodd Foot hefyd ei gydymdeimlad wrth i ni gyfeirio at yr ymgyrch am iawndal Llŵch i'r Chwarelwyr.

Yn amlwg iawn, byddem yn wirion i beidio ag edrych yn fanwl ar unrhyw bosibilrwydd o'r fath. Cytunwyd y byddai Dafydd El a minnau'n cyfarfod â Cledwyn Hughes yn gynnar ym mis Medi, i drafod a oedd yn bosib dyfeisio pecyn fyddai'n dylanwadu arnom i fenthyg ein pleidleisiau i Lafur dros y gaeaf.

Cynhaliwyd y cyfarfod ym Mhorthaethwy ar 1af Medi 1978, rhwng Dafydd El, Cledwyn a minnau. Erbyn hynny, roedd Gwynfor a ninnau wedi cytuno y byddem yn gofyn am restr o hanner dwsin o eitemau gan y Lywodraeth Lafur. Y pwysicaf i Gwynfor oedd y refferendwm, ond teimlai Dafydd El a minnau fod iawndal i'r Chwarelwyr yn allweddol i'n hetholwyr.

Byddai hynny'n dangos i drigolion ardaloedd diwydiannol Cymru – ac roedd yn rhaid cael eu cefnogaeth os oeddem am ennill y refferendwm – ein bod yn gweld yr agenda ddiwydiannol/gymdeithasol fel rhan ganolog o'r ddadl dros ymreolaeth.



Nid oedd yn anodd dod i gytundeb efo Cledwyn: roeddem ill tri yn hanu o’r un traddodiad gwleidyddol ac o’r un gornel daearyddol, fel bod y rhestr oedd gennym fel Plaid yn un hawdd iddo ei gymeradwyo. Y rhestr oedd:

- Cyllid ychwanegol i Asiantaeth Datblygu Cymru i greu Gwaith
- Cyflymu’r broses o ddarparu Sianel Deledu Gymraeg
- Creu Cronfa’r Iaith i hybu dysgu’r Gymraeg
- Diwygio’r gyfundrefn brydles tai
- Help i ffermydd teuluol a busnesau bach
- Cynllun iawndal silicosis i chwarelwyr

Ac roedd hyn oll ar ben prif ystyriaeth Gwynfor, sef cynnal Refferendwm Datganoli ar ddydd Gŵyl Dewi. Gosodwyd un amod ar ran y tri ohonom: na fyddai’r Cytundeb rhyngom yn weithredol oni bai fod y rhestr lawn yn cael ei chyhoeddi fel rhan o araith y Frenhines ddechrau Tachwedd.

Doedd dim sicrwydd y caem gytundeb gan fod pawb yn disgwyl i Callaghan alw etholiad wrth annerch y TUC yr wythnos ganlynol. Ond, camu ’nôl o etholiad fu diwedd y gân – camgymeriad dybryd o gofio sut y bu i’r “*Winter of Discontent*” danseilio hygrededd y Lywodraeth Lafur.

Felly cafwyd araith y Frenhines i agor sesiwn newydd o’r Senedd ar 1af Tachwedd 1978: ac fe gyhoeddwyd ganddi y rhes o eitemau oedd ar ein rhestr siopa, gan gynnwys y geiriau:

*“My Government are examining schemes to provide compensation for those such as slate quarrymen who have suffered respiratory disease from dust in their employment.”*

Wrth i mi droi’n ôl o Dŷ’r Arglwyddi ar ddiwedd yr Araith, daeth David Rose, gohebydd y Daily Post ataf, gan ofyn yn brofoclyd, “*What did you think of the Welsh Queen’s speech, then?*” Roedd y cyfryngau wedi deall yr hyn oedd yn digwydd; ac am wybod a fyddem yn cadw Llafur mewn grym drwy’r gaeaf.

Wrth gwrs, roedd y geiriau “*examining schemes*” yn bell o fod yn ymrwymiad du-a-gwyn. Pan fyddem yn holi sut oedd y Mesur Llwch yn siapio, y cyfan a gaem oedd “*We’re working on it, but it’s very complex*”.

A dyna oedd y sefyllfa pan gynhaliwyd y refferendwm ar sefydlu Cynulliad i Gymru ac i'r Alban ar Ddydd Gŵyl Dewi, 1979. Cafwyd mwyafrif dros ddatganoli yn yr Alban, ond gwrthodwyd sefydlu Cynulliad yno gan nad oedd y mwyafrif yn ddigonol – eironi mawr yng ngoleuni straffig Brexit! Ond yng Nghymru gwrthodwyd y Cynulliad, gyda Neil Kinnock yn arwain y frwydr yn erbyn polisi ei Blaid ei hun.

Roedd hon yn ergyd drom i'r mudiad cenedlaethol; ac i Gwynfor Evans yn arbennig. Roedd wedi edrych ar sefydlu Cynulliad Cenedlaethol fel pinacl i'w yrfa. Roedd yn torri ei fol eisiau gosod cynnig o ddiffyg hyder yn y Lywodraeth Lafur am fethu â gwireddu datganoli; ac roedd yr SNP – efallai efo mwy o gyfiawnhad, o ystyried sut yr oedd pleidlais 'la' yr Alban yn cael ei hanwybyddu – hefyd am osod cynnig o ddiffyg hyder yn y Llywodraeth.

Wrth gwrs, 'roedd canlyniad y Refferendwm yn ergyd i Dafydd El a minnau; ond roeddem ni'n dau yn iau, ac amser o'n plaid. Dwi'n hoff iawn o un dywediad – mae'r teulu a'm ffrindiau wedi hen laru ar ei glywed, sef:

*“Y frwydr nesaf, nid yr un ddiwethaf, ydi'r frwydr bwysicaf, bob amser!”*

Felly, wythnos ar ôl y Refferendwm, aeth Dafydd El a minnau i guro ar ddrws swyddfa Harold Walker, y gweinidog cyflogaeth, i ofyn beth oedd am ddigwydd i addewid y Llywodraeth am iawndal llwch? Honnodd yntau fod y Llywodraeth yn dal i weithio ar Fesur drafft; ac yna gofynnodd inni gwestiwn na allem gredu ein clustiau o'i glywed, sef:

*“From all that you're telling me, can I take it that getting such an Act to the Statute Book is important to both of you?”*

Yn enw pob rheswm! Dyma'r dyn yr oeddem wedi ei bledu â chwestiynau seneddol ar y pwnc; yr un a ddaeth i Lanberis i ddysgu am nerth y teimlad yno; ac a ymrwymodd naw mis yn gynharach, y byddai'r Llywodraeth yn deddfu “o fewn wythnosau, nid misoedd”. Haleliwia! Roedd angen gras. Ond wrth gwrs dyma ni'n cadarnhau, o safbwynt etholaethol y ddau ohonom, mai iawndal llwch oedd yr eitem uchaf o'n blaenoriaethau.

A dyma fo wedyn yn dod at y cwestiwn canolog i'r Llywodraeth: *“Is this issue important enough for me to tell the Prime Minister that it would make a difference in the way you would vote in the House on the Motion of No Confidence in the Government?”*

Roedd Dafydd El a minnau – ond ddim Gwynfor – wedi dod i'r casgliad erbyn hynny y byddem yn gwneud iawndal Llŵch yn amod i ni bleidleisio dros y Llywodraeth yn y bleidlais diffyg hyder. Yn ddigon syml, ein hymateb i Walker oedd "Dim Mesur Llŵch, dim hyder!"; a byddai angen datganiad cwbl glir gan y Llywodraeth ar hyn ar lawr y Tŷ er mwyn i ni ochri gyda Llafur yn y bleidlais dyngedfennol a ddisgwylid yr wythnos ganlynol. Ni allai unrhyw beth fod yn gliriach. Trosglwyddodd yntau ein neges i'r Prif Weinidog.

Ysyaeth, roedd yn rhaid i ninnau hefyd siarad efo'r bos! Ond cyn hynny, gwelodd y Llywodraeth fod yn rhaid iddynt wneud datganiad a fyddai'n dangos eu bod o ddifri am ddeddfu, heb oedi, er lles y chwarelwyr. Mewn ateb i gwestiwn seneddol a osodais yn syth wedi'n sgwrs, dywedodd Harold Walker:

*"The Government have concluded their consideration of the review of the question of compensation for slate-quarrymen and others suffering from pneumoconiosis and similar respirable lung diseases, and have decided to introduce a Bill to enable the Secretary of State to make a scheme to compensate such workers. We intend to introduce a Bill as quickly as possible."*

Roedd hyn yn rhoddi rhywbeth pendant i ni ei drafod yn ein cyfarfod arbennig y Sadwrn canlynol yn Aberystwyth efo Gwynfor; a hynny gyda'r Bleidlais Diffyg Hyder ar lawr y Tŷ y nos Fercher ganlynol, 28ain Mawrth 1979. Roedd gwahaniaeth barn ar y mater: Gwynfor dros ddymchwel y Llywodraeth; Dafydd El a minnau dros eu cynnal os caem ddatganiad digyfaddawd – "*copper-bottomed guarantee*" – y byddai Mesur Llŵch yn cael ei weithredu ar unwaith, doed a ddelo – hyd yn oed pe bai'r Llywodraeth yn colli'r bleidlais.

Bu trafod dwys; ond gwelodd Gwynfor ein bod yn benderfynol o sicrhau'r Mesur ac yn fodlon cynnal y Llywodraeth i'r perwyl hwnnw. Cytunodd i bleidleisio efo ni – gan wybod y byddai'r bleidlais honno o bosib yn ddigon iddo gollu ei sedd yng Nghaerfyrddin.

Cyhoeddwyd y Mesur Llŵch y dydd Mawrth canlynol. Yn ei araith ar y nos Fercher, yn ystod y ddadl diffyg hyder, esboniodd Gwynfor ein safiad, fel a ganlyn:

*“A week ago today, we were offered the possibility of an Act that would create new conditions for quarrymen in Wales and many others suffering from dust diseases...Whatever electoral cost we may have to pay...We feel that it is right to obtain the best possible scheme for those suffering from dust diseases... The Government have guaranteed that the Bill will pass through all its stages, if they remain in power, before the middle of May; and that compensation will be paid in October.”*

Dyna oedd araith olaf Gwynfor Evans yn Nhŷ'r Cyffredin; araith ddewr ac anhunanol.

Credaf fod y parodrwydd a ddangoswyd gennym i gyd-drafod efo Llywodraeth Lafur mewn amgylchiadau priodol, wedi helpu Ron Davies i gydweithio efo ni, ugain mlynedd yn ddiweddarach, pan gawsom y maen i'r wal i greu Cynulliad Cenedlaethol sydd bellach yn Senedd Cymru.

Ond yn ôl at y Mesur lawndal Llŵch – sef y *Pneumoconiosis, etc. (Workers Compensation) Bill* ac mae gen i gopi o'r Mesur efo fi heno!

Roedd y bleidlais diffyg hyder ar y nos Fercher am fod yn glos iawn. Roedd y Llywodraeth wedi disgwyl ennill o un bleidlais, os oedd y tri ohonom yn ochri efo nhw. Mae llawer wedi ei ysgrifennu am yr achlysur, gan gynnwys drama yn y West End dair blynedd yn ôl, dan y teitl *“This House”* – efo actorion yn chwarae rhan Dafydd El a minnau!

Mae gennyf stori ogleisiol iawn am ddigwyddiadau'r noson; ac os oes amser, dof yn ôl ati ar ddiwedd y noson.

Ond o safbwynt y Mesur, y ffaith ddramatig oedd i Lywodraeth Callaghan golli o un bleidlais. Dyna arweiniodd at etholiad cyffredinol y mis Mai hwnnw, ac i Maggie Thatcher ddod yn Brif Weinidog.

Roeddwn yn isel iawn fy ysbryd, o feddwl ein bod mor agos at gael y Ddeddf Llŵch; ond mewn perygl o'i cholli wrth i'r Senedd chwalu ar gyfer etholiad.

Ond, a diolch aruthrol iddo, roedd Michael Foot, Arweinydd Tŷ'r Cyffredin ac felly'r Gweinidog oedd yn gyfrifol am amserlen y Senedd – yn cofio'r addewid a wnaed i ni yng Nghaerdydd wythnos y 'Steddfod; ac roedd am gadw at ei air.

Mynnodd fod y Mesur Lluch yn mynd drwy Dŷ'r Cyffredin – yr ail Ddarlleniad, y *Committee Stage*, y *Report Stage* a'r trydydd Ddarlleniad – i gyd o fewn diwrnod - y dydd Llun wedi'r bleidlais dyngedfennol. Aeth drwy Dŷ'r Arglwyddi drannoeth ac roedd ar y Llyfr Statud fel deddf gwlad erbyn y dydd Mercher. Anhygoel! Mae'n dangos beth mae'r Senedd yn gallu ei wneud – os oes arweiniad a phenderfyniad.

Gydag etholiad yn y gwynt, roedd Aelodau Seneddol Llafur am y gorau i gymryd y clod am ddeddfu; ac i dywallt dŵr oer dros unrhyw awgrym fod “deal” wedi'i gwneud efo ASau Plaid Cymru er mwyn cael Deddf Lluch.

Ddowch chi ddim o hyd i air yn Hansard Tŷ'r Cyffredin sy'n cydnabod fod Aelodau Seneddol Plaid Cymru wedi gwneud unrhyw gyfraniad i sicrhau hyn!! *That's politics* ichi! Ond, fel sy'n dal weithiau'n ffaith, rhaid troi at Dŷ'r Arglwyddi i gael y stori yn ei chyd-destun cywir.

Wrth i'r Mesur wneud ei ffordd drwy'r Siambr honno, dywedodd y Gweinidog Llafur oedd yn gyfrifol am y Mesur, yr Arglwydd Wallace, fel a ganlyn:

*“It was certain that three Members of Parliament...asked for the Bill under certain conditions (h.y. y bleidlais hyder). That is alright. May I say that a promise made then is a promise kept now. Whatever the arguments in the media, a promise has been kept; that is to the credit not only of the Government, but to the Houses of Parliament as a whole.”*

Cafodd y Mesur sêl bendith y Frenhines ar 4ydd Ebrill, 1979 a daeth yn weithredol, dri mis yn ddiweddarach, ym mis Gorffennaf 1979.

Roedd y graddfeydd iawndal yn dibynnu ar ganran yr analluedd yn rhedeg rhwng 10% a 100%; ac ar oed y gweithiwr pan gafodd ei daro gan yr aflwydd. Roedd y symiau gwreiddiol yn rhedeg o lefel bitw iawn o £700 hyd at £20,000. Rhaid cofio mai tua £4,000 o iawndal oedd achosion llys yn eu dyfarnu bryd hynny, ar gyfartaledd.

Yr amcangyfrif cyntaf gan y Llywodraeth am gost y Mesur oedd tua £5m yn y flwyddyn gychwynol a £75,000 y flwyddyn ddilynol. Ond roeddent wedi methu'n enbyd â'u hamcangyfrifon, gan nad oeddent wedi gwerthfawrogi maint y broblem. Dechreuwyd gwneud taliadau yn yr hydref; ac yn y flwyddyn gyntaf fe dderbyniwyd dros bedair mil o geisiadau gan gyn-chwarelwyr a'u teuluoedd, ac 80% ohonynt yn derbyn iawndal.

Gwnaed taliadau gwerth dros £28 miliwn yn y deng mlynedd cyntaf; dros £30m arall dros y ddegawd ddilynol; ac mae'r ddeddf yn dal i dalu – am y rheswm syml fod cyn-chwarelwyr, a gweithwyr mewn diwydiannau llychlyd cyffelyb, yn dal i ddiodef o effaith *pneumoconiosis*; a hynny heb fod cyflogwyr mewn sefyllfa i dalu iawndal. Roedd y ddeddf yn berthnasol i weithwyr cotwm, haearn a chrochenwaith, yn ogystal â chwarelwyr; ac i weithwyr fu'n trin asbestos gan achosi *mesothelioma*.

Doedd y Mesur Lluch ddim yn berffaith – ddim o bell, bell ffordd. Roedd elfennau o “*rough justice*” yn y cynllun iawndal; ac roedd rhai gweithwyr yn dal i ddisgyn drwy'r rhwyd.

Bu Ted Oliver yn feirniadol iawn o'r sefyllfa yn negawd cyntaf y ganrif hon pan oedd yn ymddangos fod Glowyr yn dal i gael gwell bargaen na'r chwarelwyr. Codwyd hyn gan Hywel Williams ac Elfyn Llwyd yn ystod cyfnod llywodraeth Tony Blair a Gordon Brown; ac er bod rhai mân newidiadau wedi eu gwneud i'r cynllun, methodd rhai cyn-chwarelwyr â chael iawndal.

Ond gwn, o'r llythyrau a gefais fel AS, fod cannoedd lawer o bobl yma yng Ngwynedd wedi cael rhyw gymaint o arian a oedd o help iddynt – fel dioddefwyr, fel gweddwon ac fel plant y chwarelwyr – na fyddent wedi ei gael heb yr ymgyrch gofiadwy honno yn y saithdegau.

**Ond cofiwch hyn hefyd: does dim iawndal yn ddigon i ddigolledu rhywun sy'n colli ei iechyd; a theulu sy'n colli tad.**

Ym 1980, cefais wahoddiad i fod yn westai arbennig yng nghinio Cymdeithas y Gweithwyr Chwarel, a gynhaliwyd yng Ngaerwen. Cefais anrheg fechan – set pupur a halen arian – i gydnabod yr ymgyrch. O'r holl anrhegion a gefais yn ystod ac ar ddiwedd fy nghyfnod fel AS Arfon, dyma'r un sy'n golygu'r mwyaf i mi oherwydd ei fod yn cyfleu neges o'r galon; un sy'n cofio ymgyrch a ddaeth ag ychydig o gyfiawnder i werin Gwynedd, a dalodd gyda'u hiechyd i greu a chynnal diwydiant sydd, o'r diwedd, ar fin cael cydnabyddiaeth gan UNESCO, fel rhan o Dreftadaeth y Byd.

Diolch am wrando; am eich diddordeb; ac am eich ymrwymiad i'n treftadaeth ni, a'r graig sy'n gadernid i'n cymdeithas a'i gwerthoedd.

- diwedd -

## Rhestr termau

- Tudalen 3:** Arfon: un o etholaethau Tŷ'r cyffredin yn Senedd y Deyrnas Unedig (yn San Steffan ac enw'r hen gyngor dosbarth) Crewyd y sedd hon gan Gomisiwn Ffiniau Cymru mewn pryd ar gyfer etholiad cyffredinol 2010, a disodlodd hen sedd Caernarfon, ond oedd fel arfer yn cael ei alw yn Arfon yn y Gymraeg
- Tudalen 4:** Stranger's Bar (Bar y dieithryn) un o sawl bar ym Mhalas Westminster, cartref Senedd y Deyrnas Unedig. Mae'n agored i Aelodau Seneddol a Swyddogion Seneddol, eu gwesteion, ac aelodau o staff Seneddol.
- Tudalen 11:** Dafydd El: enw anffurfiol byrrach i'r Arglwydd Dafydd Ellis Thomas, AS Plaid Cymru dros Meirionnydd, yr etholaeth gyfagos, o 1974 i 1992

**Hawlfraint yr erthygl:** Dafydd Wigley

**Am unrhyw ymholiadau neu wybodaeth pellach cysylltwch â:**

Llechi Cymru [Ilechi@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Ilechi@gwynedd.llyw.cymru)

Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis [Ilechi@amgueddfacymru.ac.uk](mailto:Ilechi@amgueddfacymru.ac.uk)



Dafydd Wigley yn cyflwyno ei ddarlith yn Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis 23.1.2020



Dafydd Wigley gyda Llysgenhadon Ifanc Cais Treftadaeth y Byd ar gyfer Tirwedd Llechi Gogledd Cymru 23.1.2020



Baner gwreiddiol o Ymgyrch Y Chwarelwyr gafodd ei godi unwaith eto yn ystod Gwyl y Llechi ym Mlaenau Ffestiniog Gorffennaf 2017